Cylchlythyr y Gwanwyn 2023

Tyfwn ar ein taith

Neges wrth y Pennaeth

Diwedd tymor arbennig arall yma yn Sant Curig! Tymor byr ond tymor hynod brysur! Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl staff, plant, rhieni a llywodraethwyr Sant Curig am eu holl waith caled yn ystod y tymor yma. Gobeithio y gewch amser i ymlacio dros yr wyl.

Mae ein plant arbennig wedi gweithio'n hynod o galed ymhob dosbarth yn ystod y tymor ac wedi gweithio'n ddiflino i siarad yn Gymraeg. Gwelwyd llwyth o themâu cyffrous a digwyddiadau diddorol ar draws yr ysgol - diolch i bawb am eu cyfraniad. Gallwch ddarllen mwy amdanynt yn y cylchlythyr.

Braf oedd gallu croesawu rhieni nol i wylio gwasanaethau dosbarth yn ystod y tymor. Fe ddaeth rhieni blynyddoedd 2 a 5 mewn i wylio eu plant yn perfformio ar lwyfan ysgol am y tro cyntaf ers amser. Diolch am eich cefnogaeth!

A beth am berfformiadau disgyblion yr ysgol ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd eleni? Gwych! Diolch i'r plant a wnaeth canu, adrodd, dawnsio a chwarae offerynnau. Rydym yn falch iawn o bob un ohonoch! Hefyd, llongyfarchiadau i Fand Sant Curig ***'Fflam y Ddraig'***! Llwyddiant mawr gyda'r trac ***'Dewch gyda ni'***. Edrychaf ymlaen at weld y plant yn perfformio'r trac ar lwyfan yr Eisteddfod tymor nesaf!

Yn olaf, gobeithio y cewch chi, ein teuluoedd cefnogol, Pasg hapus ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl atom ar y 17eg o Ebrill. Mae'r staff eisoes wedi bod yn cynllunio gweithgareddau cyffrous ar gyfer tymor nesaf!

Pasg Hapus i holl #DeuluCurig.

A message from the Headteacher

Here we are at the end of another special term here at Sant Curig! A short but a very busy term! I would like to take this opportunity to thank all the staff, children, parents and governors of Sant Curig for all their hard work during this term. Hopefully you'll get a chance to relax over the Easter break.

Our children have worked extremely hard in every class during the term and have worked tirelessly to speak in Welsh. Lots of exciting themes and interesting events were seen across the school - thanks to everyone for their contribution. You can read more about them in the newsletter.

It was nice to be able to welcome parents back to watch class assemblies during the term. Parents of years 2 and 5 came in to watch their children perform on a school stage for the first time in a while. Thank you for your support!

*And what about the school pupils' performances at the Urdd Eisteddfod this year? Wonderful! Thank you to the children who sang, recited, danced and played instruments. We are very proud of you all! Also, congratulations to the Saint Curig Band **'Fflam y Ddraig'**! Great success with the track **'Dewch gyda ni'**. I look forward to seeing the children perform the track on the Eisteddfod stage next term!*

Finally, I hope you, our supportive families, have a happy Easter and we look forward to welcoming you back to us on the 17th of April. The staff have already been planning exciting activities for next term!

Happy Easter to all the #CurigFamily.

Pob Hwyl Mrs Walsh!

Byddwn yn ffarwelio â Mrs Walsh ar ddiwedd y tymor ac fel ysgol rydym yn diolch yn fawr iawn iddi am ei holl waith caled ar hyd y blynyddoedd. Mae cannoedd o blant wedi elwa o'i chymorth a'i chefnogaeth a dymunwn yn dda iddi wrth iddi ddechrau cyfnod newydd yn ei bywyd. Diolch yn fawr iawn!

We shall be saying goodbye to Mrs Walsh at the end of this term and we would like to wish her well as she starts a new chapter in her life. Mrs Walsh has helped and supported hundreds of pupils during her time at Sant Curig and as a school we would like to thank her for all that she has done!

Llongyfarchiadau!

Da iawn a diolch i bawb a gynrychiolodd Ysgol Sant Curig yn yr Eisteddfod Gylch. Llefaru, canu, dawnsio… roedd pawb yn wych!

Llongyfarchiadau i Tirion am ddod yn 2il yn yr unawd chwythbrennau!

Well done and thank you to everyone who represented Ysgol Sant Curig in the Local Eisteddfod. Reciting, singing, dancing… all were brilliant!

Congratulations to Tirion on coming 2nd in the woodwind solo competition!

Chwaraeon / Sport

Braf oedd gweld timau chwaraeon yr ysgol yn cystadlu mor frwd y tymor yma. Chwaraeodd tîm rygbi'r ysgol yn erbyn Ysgol Pen y Garth, ym Mhen y Garth, cyn ei croesawi i Ysgol Sant Curig am y gêm gyferbyniol. Bu'r tîm yn cystadlu'n frwd yng nghystadleuaeth rygbi 7-bob-ochr a tag Yr Urdd yng Nghaerdydd ar ddiwedd mis Mawrth. Ym mhêl-droed buodd timau'r bechgyn a merched yn mwynhau cystadlu yng nghystadlaethau Caerdydd a'r Fro a'r Urdd.

Cafwyd lawer o hwyl yng nghlybiau ar ôl ysgol hefyd y tymor yma gyda nifer yn mynychu clybiau rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd a chlwb aml-chwaraeon yr Urdd. Edrychwn ymlaen at ddathlu cyraeddiadau chwaraeon yr ysgol eto tymor nesaf gyda Mabolgampau'r ysgol.

It was fantastic to see the school's sports teams competing so enthusiastically this term. The school's rugby team competed against Ysgol Pen y Garth, in Pen y Garth, before welcoming them to Ysgol Sant Curig for the return fixture. The year 5 & 6 boys and girls teams enjoyed the opportunity to compete in the Urdd 7-a-side and tag rugby competition, in Cardiff. In football, the boy's and girl's teams enjoyed competing in the Cardiff & Vale and Urdd competitions.

Pupils enjoyed attending this terms various after school clubs with many attending rugby clubs, football, netball and the Urdd multi-sports club. We look forward to celebrating the school's sporting achievements again next season with the school sports day.

Cit Newydd / New Kit

Hoffwn ddiolch yn fawr i Mr Wesley Braithwaite a'r cwmni NSS am noddi ein cit porffor newydd. Gwisgodd ein tîm pêl-droed bechgyn y cit yn nhwrnamaint pêl-droed yr Urdd.

Yn ogystal, hoffwn ddiolch yn fawr i Mr Chris Bryan am noddi dau o'n citiau newydd. Gwisgodd ein tîm pêl-droed merched y cit streipïog du a llwyd yn nhwrnamaint pêl-droed yr Urdd.

Mae'r disgyblion a'r ysgol yn ddiolchgar iawn. Rydym nawr yn edrych yn broffesiynol ac yn edrych ymlaen at gynrychioli'r ysgol a gwisgo'r citiau newydd mewn gemau cyfeillgar a thwrnamaint yn y dyfodol.

A big thank you to Mr Wesley Braithwaite and NSS for sponsoring our new purple kit. The boys football team loved wearing our new kit in the Urdd football tournament.

Also, a big thank you to Mr Chris Bryan for sponsoring two other football kits. The girls football team enjoyed wearing the black and anthracite striped kit in the Urdd football tournament.

The pupils and the school are very thankful. We now look very professional and we look forward to representing the school and wearing the new kits in future friendlies and tournaments.

Blwyddyn 6

Am dymor llawn hwyl a sbri yn astudio ein cwestiwn mawr, 'Beth sydd wedi ac yn rhoi Cymru ar fap y byd?'. Ein huchafbwynt oedd creu rap yn ein gweithdy gyda Mr Phormula. Defnyddion beth ddysgom gan Mr Phormula i greu rap ein hunain am yr ysgol. Yn ogystal, trafodon fel dosbarth sut mae cestyll Cymru yn ein rhoi ar fap y byd. Defnyddiwyd beth a ddysgwyd i gwblhau prosiect gwyddoniaeth a thechnoleg sef i greu castell ein hunain gan ddefnyddio adnoddau ailgylchu yn unig. Sylweddolom fod yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad ym Mhatagonia. Astudiwyd Patagonia gan gymharu eu ffordd o fyw i sut yr ydym yn byw yng Nghymru gan gynnwys hinsawdd a bwydydd gwahanol. Dysgom bwysigrwydd yr iaith Gymraeg gan ymfalchïo yn ein hiaith ein hunain. Astudiwyd trychineb Aberfan gan ddangos empathi tuag at bobl y pentref yn ystod yr amser torcalonnus. Ysgrifennwyd cerdd am Aberfan a fydd yn cael ei feirniadu tuag at goron yn ein Eisteddfod yr ysgol. Yng nghanol y tymor cafodd y disgyblion cyfle i fwynhau ein sesiynau rygbi gyda Gleision Caerdydd. Gwelir datblygiad cadarn yn sgiliau rygbi'r disgyblion dros y cyfnod o bum wythnos. Rydym wedi defnyddio technoleg er mwyn creu animeiddiadau am Hedd Wyn a'r chwedl Dinas Emrys. Astudiwyd Hedd Wyn a'r Gadair Ddu ble ysgrifennwyd ymson 'Y Gadair Ddu'. Defnyddion eu gwybodaeth arbennig o'r gadair gan roi ein hunain yn esgidiau'r gadair yn ystod ei daith yn Eisteddfod Penbedw, 1917. Mi fydd y dasg hon hefyd yn cael ei feirniadu ar gyfer Eisteddfod yr ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg. Am dymor prysur!

A very fun term studying our big question, 'What has and does put Wales on the map of the world?'. Our highlight was our workshop with Mr Phormula where we learnt how to write and perform a rap. We used what we learnt to write and perform our own rap about Ysgol Gymraeg Sant Curig. Also, we discussed as a classroom how Welsh castles put Wales on the map. The pupils used their knowledge to complete our science and technology project which was to create their own castles using recyclable materials. We were intrigued to hear that Welsh is also spoken in Patagonia, South America. Comparing both Patagonia and Wales was a task we enjoyed by studying climate, different foods and their overall way of living. We understand the importance of the Welsh language whilst feeling proud to be Welsh. The Aberfan disaster was a historic event we studied whilst showing empathy towards the people of the town during the heart-breaking incident. Using their knowledge, the pupils wrote a poem about Aberfan which will be judged at our school Eisteddfod. During the term we were lucky to receive rugby sessions by Cardiff Blues. We saw a development in the pupils' rugby skills over the five week period. We used iPads and laptops to create animations about Hedd Wyn and the myth and legend story, Dinas Emrys. Our big write task was to write a soliloquy as Hedd Wyn and the Black Chair during the shock of the Eisteddfod in Birkenhead in 1917. This task will also be judged in our school Eisteddfod after the Easter break. A very busy term!

Sêr y Tymor



CYMREICTOD

Derbyn - Morwenna M ac Arkìn L

1 - Joseph G a Jaxson H

2 - Tarik R ac Amina R

3 - Hollie G a Maya G

4 - Isla-Marie T a Sophie W

5 - Etien D a Gethin M

6 - Nia S a Jake O

YMDRECH

Derbyn - Tiago T a Cali G

1 - Jessie B a Finn J

2 - Eva L ac Elliott W

3 - Blake W a Kimberly O

4 - Grace H a Moli M

5 - Emily W a Joseph C

6 - Jack G a Ruby T

CYFEILLGARWCH

Derbyn - Gino R ac Elis M

1 - Fraser J a Daisy H

2 - Joe B a Luca P

3 - Isaac Mc a Louie-Brooke V

4 - Sophia J a Noah E

5 - Olivia-Leigh R a Lili-Bo S

6 - Amelia WS a Sam L

Meithrin

Rydym wedi cael tymor llawn o weithgareddau hwylus a chreadigol. Rydyn ni wedi bod yn dysgu am Gymru a phethau sydd yn arbennig i ni yng Nghymru. Dysgon ni am ein baner, ac am storiau Santes Dwynwen a Dewi Sant. Mae gennym ni lawer o gestyll yng Nghymru hefyd ac wrth edrych arnynt rydym wedi gosod lluniau ohonynt ar fap ble ydynt i gymharu â ble rydyn ni'n byw. Rydym wedi ceisio adeiladu castell newydd i Gymru a phont newydd hefyd.

This term we have done lots of fun and creative activities. We have been learning about Wales and things that are special for us in Wales. We have learnt about our flag and had stories about Santes Dwynwen and Dewi Sant. We have learnt that there are many castles in Wales and where they are in relation to where we live. We have also tried to build new castles and bridges for our country as well.

Gemau parasiwt

Parachute games

Darganfod

Discovering



Gwehyddu

Weaving

Diwrnod y Llyfr

World Book Day

Helfa Drysor Cymraeg

Welsh Treasure Hunt

Dydd Gŵyl Dewi Hapus

Happy Saint David's

Beth hoffet ti fwyta yng nghaffi Cymraeg Curig?

Welcome to Caffi Curig

Pa calon sy'n mynd ble?

Which heart goes where?

Blwyddyn 5

Cafodd Blwyddyn 5 lu o brofiadau hyfryd unwaith eto yn ystod y tymor diwethaf. Ein cwestiwn ar gyfer y tymor oedd 'Cymry Pell ac Agos'. Bûm yn gweithio'n galed yn dysgu am unigolion Cymraeg enwog ac edrych ar leoliadau pwysig ar fap o'r wlad. Yn ein gwaith iaith, cawsom gyfle i greu ffeil ffeithiau am Gymru a dylunio pamffled yn denu pobl i'r wlad. Dysgom hefyd am hanes Batagonia ac ysgrifennom ebost yn gofyn cwestiynau am yr ardal. Braf hefyd oedd cael dysgu stori Cantre'r Gwaelod, gan wedyn addasu'r cynnwys i greu stori eu hunain. Roedd yn hwyl cael defnyddio'n sgiliau Mathemateg yn ymarferol er mwyn creu 'moctêls' a choginio Picau ar y Maen. Llwyddodd pawb i fwynhau cyflwyno eu bocs trysor, gan ddatblygu eu sgiliau llafar drwy ddangos a disgrifio rhai o'u hoff bethau i'r dosbarth.

Roedd nifer o ddathliadau yn ystod y tymor, gan gynnwys Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Santes Dwynwen, Diwrnod y Llyfr a Dydd Gŵyl Dewi. Yn ogystal â hyn, cawsom gychwyn ein prosiect creu ffilm. Mae'r broses wedi bod yn anhygoel, gyda phawb yn mwynhau'r broses o fynd ati i ysgrifennu, paratoi a chreu ffilm fer am ddoe, heddiw ac yfory yn y Barri. Arweiniodd ein gwaith wedyn i baratoi at Eisteddfod yr Ysgol, edrychwn ymlaen at gael dathlu hyn tymor nesaf. Edrychwn ymlaen at dymor prysur arall yn dilyn gwyliau'r Pasg!

Year 5 once again had many wonderful experiences during the term. Our question for the term was 'Welsh, far and close.' We worked hard, learning about famous Welsh people and looking at important locations on a map of the country. In our language work, we had the opportunity to create a fact file about Wales and create a pamphlet enticing tourists to visit. We learned about the history of Patagonia and wrote an email asking questions about the area. It was also great to read the story of 'Cantre'r Gwaelod,' and modifying it's events to create our own story. We had fun using our Mathematics skills practically to create mocktails and make Welsh Cakes. We all enjoyed presenting our treasure box, developing our oracy skills by sharing some of our favourite things with the class.



There were a number of celebrations during the term, including Welsh Music Day, World Book Day, Diwrnod Santes Dwynwen and St David's Day. As well as this, we had the incredible opportunity to begin our film project. The process has been amazing, with everyone enjoying the process of writing, preparing and creating a short film about yesterday, today and tomorrow in Barry. Our focus then lead to preparing for the school's Eisteddfod, which we look forward to celebrating next term. We look forward to another busy term after the Easter holidays!

Blwyddyn 2

Cafwyd dechrau arbennig i'r tymor wrth i ni baratoi gwasanaeth i'n teulu a'n ffrindiau yn adrodd stori Santes Dwynwen ac ystyried sut rydyn ni'n dangos cariad i'n gilydd. Atgyfnerthwyd yr hyn a ddysgwyd yn y gwasanaeth yn y dosbarthiadau hefyd. Fe wnaethon ni ddatblygu ein sgiliau adrodd stori, sgiliau sillafu, darllen ac atalnodi ynghyd â chreu darnau creadigol rydym ni'n falch iawn ohonynt!

We had an excellent start to the term whilst preparing to perform our assembly in front of friends and family. We performed the story of Santes Dwynwen and spoke about the importance of spreading love to all. We successfully developed our story telling, reading and spelling skills during the term. We also created excellent artwork that proudly sits in our classroom gallery.

Bu llawer o gyffro hefyd wrth i ni ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd y pice ar y maen wnaethon ni greu yn hyfryd – roedd popeth yn y rysáit wedi eu mesur yn berffaith!

We were filled with excitement whilst celebrating Saint David's Day. We made delicious Welshcakes, following our very own year 2 recipe.

Uchafbwynt y tymor, heb os, oedd y trip i Sain Ffagan. Roedd hi'n wych dysgu am hanes ein gwlad ac am hen arferion, sy'n wahanol iawn i'r arferion sydd gennym ni heddiw. Ydych chi'n gwybod sut roeddent nhw'n golchi dillad amser maith yn ôl? Wel, cawsom ni gyfle i ail-fyw'r profiad. Dyma ni'n mwynhau:

The highlight of the term, without a doubt, was visiting Saint Fagan museum. We really enjoyed learning about the history of our country and the old way of life, that's very different to how we live today. Do you know how they used to wash clothes many years ago? Well, Beti Bwt taught us all of her wonderful tricks. Here we are enjoying:

Mae hi wedi bod yn dymor llawn dop o weithgareddau arbennig ac rydym ni wedi dysgu gymaint. Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at hwyl yr haf!

It's been a term full of excellent activities and we've learnt a lot. Thank you to all for your support and we look forward to the summer term!

Diolch / Thank You !

Diolch yn fawr iawn i chi gyd am godi arian:

Thank you all very much for the support with fundraising:

Comic Relief

£300.00

Ysbyty Felindre

Velindre Hospital

£332.18

Hoffem ddweud diolch yn fawr iawn i'r cwmnïau canlynol am noddi ein timau pêl-droed!

We'd like to say a big thank you to the following companies for sponsoring our football teams!

NSS Cleaning Ltd. - £240.64

Resource Ltd. - £221.90

Diolch hefyd i Mrs Osborne (a gwirfoddolwyr) am yr holl waith caled a wnaethoch yn yr ardd wyllt, tra hefyd yn codi £343.69 gyda'r siop Dydd Gŵyl Dewi!

Thank you also to Mrs Osborne (& volunteers) for all the hard work that you put into the wild garden, whilst also raising £343.69 with the St. David's Day shop!

NODWCH

Y diwrnod cyntaf nol i'r plant ar ôl Pasg yw **Dydd Llun, Ebrill yr 17eg.**

Gwyliau Banc — Dydd Llun y 1af o Fai a Dydd Llun yr 8fed o Fai.

PLEASE NOTE

*First day back for the children after Easter is **Monday, April 17th.***

Bank Holidays — Monday 1st of May & Monday 8th of May.

Derbyn

Dyma ni ar ddiwedd ein hail dymor yn y Dosbarth Derbyn. Ein cwestiwn mawr y tymor yma oedd 'Ble ydyn ni'n clywed yr iaith Gymraeg?'. Rydym wedi bod yn brysur iawn yn darllen straeon Cymraeg ac yn dod i adnabod cymeriadau pwysig fel Sali Mali a chymeriadau Cyw. Rydym wedi bod yn ymarfer siarad Cymraeg yn y dosbarth gan ddilyn patrymau brawddeg arbennig. Cawsom gyfle i ddysgu am Ddydd Gŵyl Dewi wrth ddarllen stori Cyw 'Cenhinen fwya'r byd' ac wrth gwrs roedd pawb wrth ein boddau yn perfformio ein gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi yn wych i bawb. Roedd pawb wedi mwynhau canu'r holl ganeuon ac wedi dysgu stori Dydd Gŵyl Dewi trwy ddefnyddio symudiadau i helpu ni i gofio'r geiriau.

Yn yr un modd rydym wedi bod yn darllen stori'r Lindysyn llwglyd iawn yn y dosbarth. Cawsom lindys ein hunain i edrych ar eu holau yn y dosbarth. Roedd hi'n braf cael eu gweld yn tyfu yn fawr ac yn creu cocŵn, gobeithio y byddan nhw'n troi'n bili palod hyfryd cyn hir. Yn ein gwersi rydym wedi dysgu am gylch bywyd y lindysyn ac rydym wedi datblygu llawer o sgiliau mathemategol, TGCH a chreadigol wrth ddarllen y llyfr. Cawsom hwyl a sbri yn trafod a threfnu'r stori, adnabod a threfnu diwrnodau'r wythnos, creu gwaith celf arbennig i gyd-fynd â'r stori, cyfansoddi darn o gerddoriaeth i gyd-fynd â'r stori a defnyddio SeeSaw i gofnodi ein gwaith dewis dysgu yn y dosbarth. Fe fuon ni hefyd yn dysgu am gylch bywyd iâr gan ddarllen stori Begw'r iâr ac roedd pawb wedi ceisio dyfalu beth oedd yn yr wyau lliwgar oedd yn yr ardd wyllt!

Yn ein gwersi mathemateg rydym wedi bod yn dysgu sut i adio, cyfri, trefnu rhifau a sut i ddyblu rhifau syml. Rydym i gyd wedi mwynhau ein sesiynau CLIC dyddiol yn y dosbarth.

Fe ddysgon ni am bwysigrwydd Masnach Deg ac fe ddarganfyddwn ni o ble mae bananas yn dod a sut maen nhw'n cyrraedd ein harchfarchnadoedd yn ystod wythnos Masnach Deg.

Rydym wedi mwynhau llawer o ddathliadau eraill yn ystod y tymor fel Diwrnod Santes Dwynwen, cystadleuaeth hetiau Pasg, Diwrnod y Llyfr a Diwrnod Trwynau Coch. Roedd Sioe dalent y Derbyn yn arbennig!

Edrychwn ymlaen at dymor hyfryd arall yn nhymor yr Haf.

Here we are at the end of our second term in the Reception class. Our big question this term was 'Where do I hear the Welsh language?' We have had a very busy term reading lots of Welsh stories and learning about lots of important Welsh characters such as Sali Mali and all the Cyw characters. We have been busy practicing our Welsh and we have learnt lots of new sentence patterns. We had lots of fun learning about Saint David's day and it's importance to us in Wales by reading a story called 'Cenhinen fwya'r byd'. We thoroughly enjoyed performing our St David's day assembly to everyone. We had lots of fun learning all the songs and performing the story using actions to help us remember the words.

During the term we have also read a story about 'The Very Hungry Caterpillar' in Welsh. We even had our own caterpillars in class to look after. We learnt about the caterpillar's life cycle and we enjoyed seeing them grow and making a cocoon for themselves. We hope they turn into beautiful butterflies soon! Having read the story, we worked hard to develop different mathematical, ICT, Language and creative skills. We learnt how to recognise and organise the days of the week as well as putting the story in the correct order. We made lots of lovely artwork and we had a great time making music to go with the story. We used SeeSaw to upload our work so that you can have a look at what we've been doing in the classroom. We have also learned about the life cycle of a chicken by reading a story called 'Begw'r Iâr'. Everybody had fun trying to guess what was in the colourful eggs that we found in our school garden!

In our maths sessions we have worked hard on simple addition, doubling numbers, counting and putting numbers in their correct order. Everybody enjoyed our daily mental Maths CLIC sessions and have tried their best to answer every question.

During Fairtrade week we learned about the importance of Fairtrade and we found out where bananas come from and how they arrive in our supermarkets ready for us to eat.

We have done lots of celebrating in class this term. We enjoyed St Dwynwen's day, St David's day, World Book Day, an Easter hat competition and Red Nose Day. It was very obvious that there was a lot of talent in the Reception class during our talent show!

We look forward to another busy and fun Summer term after the Easter holidays.

Blwyddyn 4

Ym mlwyddyn 4 rydym wedi cael tymor creadigol a chyffrous. Yn ystod hanner tymor cyntaf y flwyddyn newydd, buom yn astudio chwedlau Cymru cyn symud ymlaen at astudio gwaith un o awduron enwocaf Cymru, Roald Dahl wrth ddarllen Charlie and the Chocolate Factory. Fel rhan o'm gwaith ar Charlie and the Chocolate Factory cawsom y cyfle i ymweld â siop siocled Cocoa Therapy, lle buom yn gweld y proses o greu siocled o'r safon uchaf. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mrs McDonald am y croeso a'r cyfle i astudio'i dawn arbennig o greu siocled.
Yn ail hanner tymor y Gwanwyn, buom yn astudio dyfodiad S4C a rhaglenni teledu Cymraeg a'i phwysigrwydd. Fel rhan o'm hastudiaethau, ymwelom ag Amgueddfa Cymru yng Nghaerdydd ag arddangosfa BBC100. Buodd hi hefyd yn hyfryd cael croesawi Anna Cox o Wildfire Wales yn wythnosol hanner tymor yma ar gyfer sesiynau Ysgol Goedwig. Edrychwn ymlaen at fwy o hwyl ac antur yn nhymor yr Haf.

In year 4 we have had a creative and exciting term. During the first half term of the new year, we studied the legends of Wales before moving on to study the work of one of Wales' most famous authors, Roald Dahl while reading Charlie and the Chocolate Factory. As part of our work on Charlie and the Chocolate Factory we had the fortune of visiting the Cocoa Therapy chocolate shop, where we saw the process of creating chocolate of the highest quality. We would like to say a huge thank you to Mrs McDonald for the welcome and the opportunity to study her special talent of creating chocolate.
In the second half of the Spring term, we studied the creation of S4C and Welsh television programmes and their importance. As part of our studies, we visited the National Museum of Wales in Cardiff and the BBC100 exhibition. It was also lovely to welcome Anna Cox from Wildfire Wales on a weekly basis, this half term for Forest Schools sessions. We look forward to more fun and adventure in the Summer term.

Siarter Iaith

Yn flynyddol rydym yn cydnabod diwrnod 'Shw mae/ Su' Mae a chafwyd cyfle i'r holl ysgol a rhieni fynd ati i ddathlu eleni.

Dydd Santes Dwynwen - Cyfle yma i'r plant ddanfon neges o gariad neu gyfeillgarwch at berson pwysig. Penderfynodd yr Ysgol drefnu a phostio negeseuon mewn blwch postio arbennig ar y dydd ac yna y tîm Siarter Iaith i ddosbarthu i'r unigolion.

Llwyddom i ddathlu Diwrnod Miwsig Cymru yn ddiweddar gyda staff a phlant yn cael cyfle i ddynwared hoff artistiaid pop/cerddoriaeth o fyd Miwsig Cymraeg/Rhyngwladol. Cafodd Bl 6 brofiad ffantastig yn rhithiol gyda'r artist/DJ Mr Phormiwla i greu geiriau/rap Cymraeg arbennig. Mae'r ysgol wedi mynd ati i ddefnyddio geiriau'r gân er mwyn creu band go gyfer cystadleuaeth grŵp yn yr Eisteddfod eleni.

Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod arbennig iawn ac roedd gweld y plant unai yn gwisgo dillad coch neu draddodiadol yn wych a chafwyd llawer o hwyl yn ceisio dyfalu pwy oedd pwy o ran staff pan oeddem yn blant!

Ysgol wedi bod yn brysur yn paratoi unigolion/grwpiau sydd wedi cystadlu drwy gyfrwng llefaru neu ganu gan gofio dawnsio unigol neu grŵp yn yr Eisteddfodau diwethaf. Diolch yn fawr i holl rieni a staff wrth ymarfer a pharatoi a chefnogi'r plant eleni.

Cafodd dau aelod o'r tîm Siarter Iaith fynychu seremoni wobrwyo gyda nifer o ysgolion eraill wrth rannu eu llwyddiant a chydnabod gwaith ysgolion yn datblygu ei Siarteri Iaith.

We recognise this event annually and yet again we celebrated 'Shw' mae/Su' mae' Day with parents and the children.

'Dydd Santes Dwynwen' allowed us to celebrate where the children were given opportunities to send a message of love or friendship to a special member in their life, and a special post box was established to commemorate our patron saint of love. The team then distributed the messages during the day.

We also celebrated 'Dydd Miwsig Cymru', staff and children were given the opportunity to dress up or emulate their favourite singing performers. Year 6 had arranged a special music session with the rap performer Mr Phormiwla. Following on from this the school has created a band which will hopefully perform the song in the Eisteddfod.

St David's Day is always an important and special occasion as we celebrate our culture and identity. The children looked amazing in their red or traditional costumes. We had a lot o fun identifying members of staff in their younger days on this day!

Members of the school have been busy during the term preparing to perform in several competitions such as recital, singing and individual/group dancing during the recent regional rounds of the Eisteddfod. A huge thanks to parents & staff for preparing and supporting the children.

Two members of the Welsh Language Charter Team were present at a recent ceremony which highlighted and acknowledged the success of schools as they developed their Welsh Language Charter over the last few years.

Blwyddyn 3

Hoffem ddiolch i'r plant am ei hymdrechion tymor yma gydag ein thema Dreigiau Direidus. Llwyddom i ymweld â sawl Maes Dysgu tymor megis :

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu – Dysgu ac ail-adrodd chwedl Dreigiau Emrys ar lafar yn arddull Pie Corbett gan allu ail-ysgrifennu fersiwn yn ysgrifenedig. Llawer o waith llafar wrth ddatblygu ein dealltwriaeth o raglen ffoneg Read Write Inc. Defnyddiom ein dewis o ansoddeiriau i ddatblygu ein disgrifiadau.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg – cawsom gyfle i gwblhau ymchwiliad gwyddonol ar sut mae gwres yn effeithio defnyddiau addas.

Roedd ein hymweliad diwedd tymor i ganolfan Techniquest yn llawn hwyl a phrofiadau gwych i bawb.

Amser nawr i edrych ymlaen at 'hoi' fach a dathlu dros y Pasg a dychwelyd yn barod at dymor olaf ym mlwyddyn 3!

Thank you to all the children for their efforts this term as we enjoyed exploring the theme of work, 'Dangerous Dragons'. We had the opportunity to examine several Areas of Learning such as:

Languages, Literacy and Communication – We listened, read and exercised a myth verbally using Pie Corbett strategies which then allowed us to write our own version of the story. We have also benefitted developing the Phonic Read Write Inc. scheme. Identifying adjectives and describing our individual dragons within our written work.

Science and Technology was a strong presence as we carried out a scientific investigation together and made conclusions using materials and their resistance to heat.

Our visit to the Techniquest Centre was the highlight and an enjoyable experience for all.

Time now to look forward and relax over the Easter break and return ready for another fun filled and busy summer term.

Blwyddyn 1

Dyma ni ar ddiwedd tymor prysur arall o weithio a mwynhau ym Mlwyddyn 1. Ein cwestiwn mawr ar gyfer y tymor oedd 'Pwy sy'n falch o fod yn Gymry?'. Dechreuom ein thema yn dysgu llawer am Y Barri a'r ardal leol wrth ymchwilio'r is-themau Fy nghartref, Fy stryd, Fy nhref a Fy ngwlad. Edrychom ar wahanol fathau o dai a dysgu am nodweddion naturiol a dynol wrth fapio ein taith i'r ysgol. Rydym wedi bod yn dysgu am hanes y Pyllau Glo trwy ddarllen stori 'Susan Rees, Merch y Pwll Glo' a chymharu ein bywydau ni gyda bywyd Susan Rees. Fe fuon ni'n creu gwaith celf arbennig gan ddefnyddio golosg i efelychu gwaith artist o'r enw Valerie Ganz. Gyda ffocws ar y celfyddydau mynegiannol ar hyd y tymor rydym hefyd wedi astudio artistiaid Cymraeg megis Rhiannon Roberts a William Brown a chreu darnau o gelfwaith ein hun. Rydym wedi mwynhau cymryd rhan yn brosiect printio wrth arbrofi gyda gwahanol fathau o brintio a chreu darn monoprint ein hun. Ynghyd a dysgu sut i ddawnsio Gwerin. Fe fuon ni'n brysur yn dathlu yn ystod y tymor. Cafwyd diwrnodau arbennig yn dathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd, Dydd Santes Dwynwen, Diwrnod Diogelwch ar y we, Wythnos Iechyd Meddwl Plant, Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod y Llyfr, Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Trwynau Coch. Dathliadau di-ri!

Yn ogystal â hyn oll rydym wedi dechrau dysgu i weini a pharatoi bwyd yng nghyflwyniad Caffi Curig ac aethon ni ar ein taith gyntaf i Role Play Lane. Roedd pawb wrth eu bodd yn chwarae rôl, yn creu roced a blasu roced ffrwythau ein hun! Dywedodd llawer roedd teithio ar fws mawr hefyd yn uchafbwynt y dydd. Edrychwn ymlaen eto at dymor yr Haf hapus a phrysur llawn profiadau newydd. Pasg hapus i bawb!

Here we are at the end of another happy and busy term in Year 1. Our big question for the term was 'Who's proud of being Welsh?'. We began our theme learning a lot about Barry and the local area as we studied the sub-themes My home, My street, My county and My country. We have looked at different types of houses and learnt about natural and man made features as we mapped our journeys to school. Learning more about Wales, we learnt about the Coalmines by reading a story about Susan Rees who worked in the coalmines and have compared our lives to hers. As a result we have also created excellent artwork using charcoal to emulate the artist, Valerie Ganz. With a focus on the expressive arts and design area of learning throughout the term we have studied Welsh artists such as Rhiannon Roberts and William Brown, creating our own artwork. We have enjoyed participating in a printing project and experimenting with different forms of printing and creating our very own piece of monoprint. As well as learning a traditional Welsh folk dance. A busy term of celebrations, we have had a number of special days celebrating a variety of events. From Chinese New Year, Valentines Day, Safer Internet Day and Mental Health Week to Welsh Language Music Day, World Book Day, St David's Day and Red Nose Day, there has been no end to our celebrations!

As well as all of this, we have begun learning to prepare and serve food and drink in the introduction of our daily 'Caffi Curig' and have attended our first school trip to Role Play Lane. We thoroughly enjoyed the many role play experiences, creating a rocket and building and tasting our own rocket fruit kebabs! Many of us also said that travelling on a big bus was a highlight of our day. We look forward to another busy and happy Summer term of new experiences. Happy Easter to you all!

Cyngor Ysgol / School Council

Mae'r Cyngor Ysgol wedi cael dechrau prysur i'r flwyddyn hyd yma. Dechreuom drwy gwrdd â Llysgenhadon Hawliau o Ysgol Bro Morgannwg ag oedd yn cynnal gweithdy defnyddiol a hwyl yn seiliedig ar Hawliau Plant. Braint oedd gweithio gyda'r Llysgenhadon i drafod pwysigrwydd hawliau a sut allwn fynd ati i addysgu gweddill yr Ysgol am bwysigrwydd Hawliau Plant. Nesaf, aethom ati i drefnu Diwrnod Trwynau Coch. Cynhaliwyd sgwrs i benderfynu ar thema i ddathlu'r diwrnod. Penderfynodd y Cyngor Ysgol i wisgo gwisg anffurfiol a chynnal sioe dalent 'Sêr Sant Curig' yn eu dosbarthiadau er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen. Mi wnaeth y disgyblion mwynhau dangos eu talentau ac mi wnaeth y staff mwynhau gwylio yn fawr. Am ddisgyblion talentog! Edrychwn ymlaen at drefnu mwy o hwyl yn nhymor 3!

The School Council has had a busy start to the year so far. We started by meeting Rights Ambassadors from Ysgol Bro Morgannwg in which we took part in a very useful and fun workshop based on Children's Rights. It was a privilege to work with the Ambassadors to discuss the importance of rights and how we can go about educating the rest of the School about the importance of Children's Rights. Next, we set about organising how we would celebrate Red Nose Day. A conversation was held to determine a theme to celebrate the day. The School Council decided to wear their own clothes and put on a 'Sant Curig Stars' talent show in their classrooms to raise money for the charity. The pupils enjoyed showing off their talents and the staff thoroughly enjoyed watching. What talented pupils we have here in Sant Curig! We look forward to organising more fun in the final school term!